# Diwedd *Yr Amserau*

## gan P. H. JONES

Cyhoeddwyd y pos canlynol yn y *Punch Cymraeg* ganol Ebrill 1859: 'Paham y mae *Yr Amserau* yn byw cyhyd? Am ei fod yn rhy ddigalon i farw'. Fel yr awgrymir, digon diflas ac anysbrydoledig oedd hanes yr *Amserau* o fisoedd cynnar 1858 ymlaen. Eto, er gwaethaf sialens *Baner* Thomas Gee, nid oedd pethau'n hollol anobeithiol ar ddechrau'r flwyddyn honno. Y drychineb gyntaf oedd colli'r talentog Mathew Lewis. Ar ôl i'w nofel gyfres, *Hanes Rhydderch Prydderch,* ddod i ben ddechrau Ionawr 1858, addaswyd cynnwys un arall o'i waith, *Y Ddwy Lili,* o fis Mawrth ymlaen. Dechreuwyd ei chyhoeddi, ond yna bu pall oherwydd 'amgylchiadau anorfod'. Y gwir echrydus oedd fod Lewis wedi ymuno â'r 31fed gatrawd o'r fyddin yng Nghaer ar 15 Mawrth er mwyn ennill, mae'n debyg, y bownti o £2-10-0 a roddwyd i wirfoddolwyr. Gan fod cymaint o'r milwyr cyffredin yn anllythrennog cafodd ddyrchafiad buan i'r radd o gorporal, gan dreulio gweddill 1858 a llawer o 1859 yn cyflawni dyletswyddau clerigol yng ngorsaf y gatrawd yn Noc Penfro. Er iddo lwyddo i ddanfon ambell i bennod o'i nofel i'r *Amserau* yn ystod 1858 ni ellid ei ystyried yn gyfrannwr rheolaidd mwyach. Cyn diwedd 1859 'roedd ar ei ffordd i Tseina, lle bu farw yn Ebrill 1861.

Fel y gwelsom yn y rhan flaenorol o'r hanes 'roedd Ieuan Gwyllt ei hun yn bur anniddig yn ei swydd olygyddol erbyn 1857. 'Roedd eisoes wedi anghytuno â John Lloyd, perchennog y newyddiadur, ynglŷn â'i annibyniaeth fel golygydd ac erbyn hyn 'roedd ei fryd ar bregethu a hybu cerddoriaeth yn hytrach na newyddiadura. Mewn llythyr at Thomas Levi tua diwedd Chwefror 1858 cwynodd ei fod yn 'methu yn glir a theimlo yn ddwfn argyhoeddedig fod fy holl ysgrifenu yn ateb ond ychydig iawn o wir bwrpas — fod neb nemawr, os dim, yn well ohono'. Ymhen mis rhoddodd Gee ergyd ddifrifol i'r *Amserau* wrth gychwyn *Udgorn y Bobl,* newyddiadur ceiniog a fanteisiai ar lwyddiant y *Faner.* O hyn ymlaen gwasgwyd yr *Amserau* yn gynyddol rhwng dau newyddiadur Gee. Gan nad oedd gan John Lloyd yr adnoddau na'r gallu masnachol ychwaith i ymateb i'r sialens, mae'n amlwg fod Ieuan Gwyllt wedi digalonni'n llwyr erbyn yr haf. Erbyn diwedd Awst yr oedd yn ystyried cynnig i ymuno â Llew Llwyfo ar staff y *Gwladgarwr* yn Aberdâr ac er gwaethaf ei farn isel o'r Llew cytunodd i ymgymryd â'r swydd ddechrau Medi. Felly torrodd ei gysylltiad â'r *Amserau* tua dechrau Hydref 1858 (ceir cyfeiriad ato fel cynolygydd dyddiedig 6 Hydref). Deallodd yn fuan mai cam gwag oedd symud i Aberdâr. Nid oedd y *Gwladgarwr* yn fenter broffidiol — gyda gwerthiant o ychydig dros ddwy fil collai tua thair punt bob wythnos. Nid oedd gan y Gwyllt reolaeth ychwaith dros holl gynnwys y newyddiadur lle cyhoeddwyd llawer o bethau nad oedd wrth ei fodd.

Bu dirywiad difrifol yn niwyg a chynnwys yr *Amserau* yn ystod 1858. Methwyd â chyhoeddi *leaders* yn ystod mis Awst tra oedd Gwyllt ar ymweliad â'r De, a bu lleihad yn y nifer o hanesion lleol a gynhwysid gan i'r newyddiadur golli gafael yn raddol ar ei ohebwyr lleol. Ymateb negyddol Lloyd i'r prinder cynyddol o ddefnyddiau oedd cwtogi maint yr *Amserau* a lleihau ei bris o ddwy geiniog a dimai i geiniog. Hysbysebodd ei gynllun ar 22 Medi ond ymhen diwrnod 'roedd Gee wedi ymateb i hyn, trwy ddanfon y nodyn a atgynhyrchir yma at ddosbarthwyr y *Faner* yn eu hannog i fanteisio ar y cyfle i wthio ei werthiant ar draul yr *Amserau.* Cynddeiriogwyd Lloyd gan 'ddull anrhydeddus(?) un cyhoeddwr parchedig' o fanteisio ar ei hysbyseb a bu'n lladd ar 'ymddygiad iselwael ac anghristnogol' Gee.

DINBYCH, MEDI 23ain, 1858.

GAREDIG SYR,

*Y mae yn debyg i chwi weled hysbysiad fod pris yr "Amserau" yn disgyn i geiniog, ar ol yr wythnos hon, ac y bydd yn llai o ran ei faintioli nag y mae yn bresennol.*

*Gan ei fod yn dra thebyg y bydd rhai o'i dderbynwyr yn eich cymmydogaeth yn awyddus am gael Newyddiadur lled debyg, o ran ei bris, i'r hyn oedd yr "Amserau" cyn y cyfnewidiad hwn, efallai y byddwch mor dda a defnyddio y cyfleusdra i chwanegu at nifer eich derbynwyr o "Baner Cymru."*

*Diolch i chwi am bob ymdrech a wnaethoch o blaid fy Llyfrau a fy Newyddiaduron, ac erfyniaf barhâd o'r unrhyw.*

*Ydwyf, Garedig Syr,*

*Yr eiddoch yn gywir,*



Nid oes dim tystiolaeth sy'n datgelu pwy oedd yn gyfrifol am ysgrifennu'r *Amserau* rhwng dechrau Hydref 1858 a diwedd Mawrth 1859: mae'n debyg mai Lloyd ei hun, gyda chymorth ei feibion, hwyrach, a fu wrthi. Fodd bynnag, yn Ebrill 1859 bu'n rhaid i Lloyd ddenu Eleazar Roberts yn ôl i ysgrifennu dwy golofn olygyddol, tair colofn a hanner o newyddion seneddol a cholofn o newyddion tramor bob wythnos. Parhaodd Roberts i gyflenwi y colofnau hyn tan dranc y newyddiadur ac aeth ymlaen i wasanaethu fel gohebydd Lerpwl y *Faner* tan tua diwedd 1862.

Erbyn haf 1859 'roedd yn ddigon amlwg i John Lloyd fod yr *Amserau* ar fin trengi: mae'n bur arwyddocaol iddo hysbysebu menter newydd, yr 'Amserau Temperance Hotel', ddechrau Awst. Tua'r un adeg dechreuodd drafod telerau â Gee, ac ar 3 Medi 1859 gwnaeth Lloyd a dau o'i feibion, John Lloyd (iau) a William Wallis Lloyd, gytundeb â Gee i werthu'r *Amserau* iddo. 'Roedd yn gytundeb unochrog dros ben. Er bod Gee i dalu £300 am y newyddiadur, mewn tri rhandaliad blynyddol o ganpunt yr un, ni fyddai'n talu dim tan dechrau Chwefror 1861. Dengys cymalau eraill y cytundeb fod gan Gee ddau brif amcan mewn golwg wrth brynu'r *Amserau.* Yn gyntaf, byddai'n cael gwared o newyddiadur a oedd yn cystadlu â'i deitlau yntau. Er nad oedd yr *Amserau* erbyn hyn yn bygwth eu llwyddiant, 'roedd perygl y byddai Lloyd yn ei werthu i berchennog mwy galluog a fedrai adfer ei sialens. Wrth lyncu'r *Amserau* byddai'r *Faner* yn ddiogel rhag hyn ac yn wir yn debygol o ennill cyfran helaeth o hen dderbynwyr yr *Amserau.* Ail nod Gee oedd ceisio cael gafael yn y doreth broffidiol o hysbysebion a oedd, erbyn hyn, yn llenwi colofnau'r *Amserau* — gymaint felly nes peri i ddarllenwyr gwyno o bryd i'w gilydd bod y newyddiadur yn cynnwys gormod ohonynt! Bu'n rhaid i Lloyd gytuno i barhau i dderbyn hysbysebion yn Lerpwl a'u danfon at Gee am gyfnod o dair blynedd. Fel tâl am hyn, cafodd yr hawl i gynnwys ei hysbysebion ei hun yn y *Faner* yn ystod yr un cyfnod. Bu'r rhan hon o gynllun Gee yn llwyddiant mawr: o Hydref 1859 ymlaen fe ychwanegwyd llawer o'r hysbysebion a fu gynt yn yr *Amserau* at yr ychydig hysbysebion (lleol, gan fwyaf) a gynhwysid yn y *Faner* hyd hynny. Ni throsglwyddwyd yr hysbysebion meddygol mwyaf amheus ond, er gwaethaf gelyniaeth Gee tuag at y fasnach mewn diodydd meddwol, fe gynhwysid ambell i hysbyseb yn brolio diodydd alcoholaidd. Gan eu bod yn Saesneg, fel traean neu fwy o'r hysbysebion newydd hyn, byddent wrth gwrs yn annealladwy i lawer o ddarllenwyr y *Faner:* hwyrach i Gee gredu bod hyn yn lleihau eu dylanwad niweidiol!

Arwyddwyd y cytundeb ar 1 Hydref 1859, dau ddiwrnod wedi cyhoeddi rhifyn olaf yr *Amserau.* Wrth ffarwelio â'r ychydig dderbynwyr a fu'n ffyddlon i'r eithaf, mynnodd Lloyd mai oherwydd afiechyd y rhoddodd y gorau i'r newyddiadur, ond tanseiliodd ei ddadl wrth ychwanegu, 'nid ydym wedi elwa nemawr ar ei gyhoeddiad . . . yr ydym wedi dyoddef colledion lawer mewn ystyr arianol'.

Manteisiodd y *Punch Cymraeg* ar dranc yr *Amserau* i roi cic neu ddau i Gee, ei hen gocyn hitio. Cyhoeddwyd marwnad i'r *Amserau* na ellir dyfynnu ond rhannau ohoni yma:

'Rol cael ergyd, am hir dymor,
Dioddefodd gystydd trwm
Ni ddylasai dyfod allan
Gan mor wael yr oedd a llwm . . .
Bu meddygon doeth a medrus,
Arno'n gweini yn ei gur,
Dr Gwyllt a Mathew Lewis
Oedd y dewis enwog wyr . . .
Dacw fo yn safn marwolaeth,
Mae'r cyfeillion yn troi draw,
Ac yn llon mewn buddugoliaeth
Mae'r gelynion ar bob llaw!
Trengu mae yr hen *Amserau*
Cicio, gwingo, yn ei boen
Mae ei lwythi o ofidiau
Wedi myn'd a'r oll ond croen.